

Cyngor ar gyfer Olyniaeth

Diffyg cynllun cadarn ar gyfer olyniaeth yw'r bygythiad mwyaf i oroesiad y fferm deuluol. Mae olyniaeth yn annatod - does yr un ohonom am fyw am byth! Felly mae'n bwysig bod olyniaeth yn rhan o'ch cynllun busnes ac yn rhywbeth sy'n cael ei drafod gyda phob un mae'n ei effeithio. Bydd hyn yn sicrhau nad oes unrhyw beth yn digwydd a allai fygwth y busnes a pherthynas gyda'r teulu pe byddai rhywbeth annisgwyl yn digwydd.

1. Cynlluniwch ar gyfer olyniaeth unwaith y bydd y plant yn cael eu geni. Mae hyn yn golygu bod digon o amser i sicrhau bod y plant yn cael eu trin yn deg heb beryglu'r busnes craidd. Cwestiynau y dylid eu holi - beth os mae pob un ohonynt eisiau parhau i ffermio? Beth os nad oes rhai ohonynt eisiau ffermio, beth alla i'w wneud i roi dechrau da iddynt mewn bywyd? Bydd y cwestiynau hyn yn eich cynorthwyo i wneud penderfyniadau synhwyrol ar bob cam.
2. Trafodwch olyniaeth yn agored gyda'r teulu'n rheolaidd a sicrhewch nad yw'n bwnc sydd byth yn cael ei drafod. Cynhwyswch bob aelod o'r teulu sy'n gysylltiedig â'r busnes, gan gynnwys teulu yng nghyfraith. Byddwch yn onest a pheidiwch â chodi gobeithion afrealistig a allai achosi problemau yn y dyfodol.
3. Sicrhewch fod gennych gynllun iawn ar gyfer eich ymddeoliad. Beth mae ymddeoliad yn ei olygu i chi? Rhowch ddyddiad ar gyfer pryd y byddwch chi'n camu'n ôl o gyfrifoldebau rhedeg y busnes. Ydych chi'n dal i fod eisiau bod yn rhan o'r busnes? Os felly, beth fydd eich rôl a'ch cyfrifoldebau? Ble fyddwch chi'n byw? A oes gennych chi ddigon o bensiwn? Os nad oes gennych ddigon o bensiwn, o le fydd eich arian ychwanegol yn dod i fynd tuag at y pensiwn? Os mai o'r busnes teuluol y bydd yr arian hwn yn dod, cyfrifwch faint yn union y bydd arnoch ei angen bob blwyddyn er mwyn gallu ei roi yng nghyllideb y busnes.
4. Dylai pawb wneud Ewyllys - dim esgusodion! Dylid trafod cynnwys yr Ewyllys gyda'r buddiolwyr. Mae'n annheg iawn i ddisgwyl i'r genhedlaeth nesaf ymrwymo i'r busnes os nad ydynt yn sicr o'r hyn fydd yn digwydd ar eich ôl chi.
5. Os mae aelod ifanc o'r teulu'n dychwelyd i'r busnes teuluol, sicrhewch fod gennych chi gynlluniau cadarn ar gyfer integreiddio. Bydd hyn yn cynnwys ble fyddan nhw'n byw, faint o oriau fyddan nhw'n eu gweithio, tâl, cyfrifoldebau a sut y byddwch yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau.
6. Diffyg cyfathrebu effeithiol yw'r prif reswm dros wrthdaro o fewn y busnes teuluol. Bydd cynnal cyfarfodydd busnes swyddogol yn rheolaidd yn cynorthwyo i sicrhau bod cyfathrebu effeithiol yn digwydd rhwng pawb sy'n gweithio o fewn y busnes. Gwnewch un person yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal. Penderfynwch pa mor aml y cynhelir y cyfarfodydd ac am ba hyd. Penderfynwch hefyd sut y byddwch chi'n cofnodi ac yn rhannu'r penderfyniadau i sicrhau eglurdeb. Mae WhatsApp yn opsiwn da.
7. Wrth ystyried olyniaeth, dylid ystyried yr asedau a'r busnes ar wahân. Gall aelod o'r teulu ddod yn rhan o'r busnes heb fod yn berchen ar gyfran o'r asedau.
8. Ystyriwch Atwrneiaeth ar gyfer y rhai sy'n rhan o'r busnes. Gofynnwch am gyngor gan eich cyfreithiwr ynglŷn â hyn.
9. Mae adolygu olyniaeth o leiaf unwaith y flwyddyn yn arfer dda o ran llywodraethu'r busnes er mwyn sicrhau bod popeth ar y trywydd iawn ac i ystyried unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd.
10. Defnyddiwch ymgynghorwyr proffesiynol ar bob cam. Gwiriwch gydag arbenigwr treth cyn gweithredu mewn unrhyw ffordd. Sicrhewch fod gennych gtundeb partneriaeth swyddogol. Mae sicrhau bod gennych syniad clir o'r hyn yr ydych eisiau ei gyflawni'n golygu y gall ymgynghorwyr proffesiynol weithio'n unol â'ch dymuniadau'n llawer haws. Fodd bynnag, cofiwch nad treth yw'r unig ystyriaeth wrth feddwl am olyniaeth. Mae'n rhaid iddo weithio i bob aelod o'r teulu.

Cyngor i Bobl Ifanc sy'n dychwelyd i'r Fferm Deuluol

Mae dychwelyd i'r fferm deuluol yn haeddu llawer mwy o ystyriaeth na'r hyn a roddir yn aml. Mewn nifer o deuluoedd, mae disgwyliad y bydd y person sy'n hoff o ffermio'n ymuno â'r busnes yn y dyfodol. Pan ddaw'r amser, nid oes llawer o drafod ynglŷn â sut y bydd y person hwnnw'n cael ei integreiddio i'r busnes ac os/sut/pryd y bydd y busnes yn cael ei drosglwyddo iddo ef neu hi. Mewn gwirionedd, nid oes llawer o drafodaeth ar yr adeg hon, ac mae pobl yn cymryd pethau'n ganiataol. Flynyddoedd yn ddiweddarach, canlyniad y diffyg cynllunio hwn yw straen ar berthynas deuluol dda a phobl yn teimlo eu bod wedi colli blynyddoedd gorau eu bywyd gwaith.

Pethau y dylid eu hystyried -

- Pam ydych chi eisiau ymuno â'r busnes teuluol? Nid yw 'methuu meddwl beth arall i'w wneud', neu 'dyna mae'r teulu'n ei ddisgwyl i mi ei wneud' yn rhesymau digonol! Mae bod yn glir yn golygu eich bod yn paratoi ar gyfer trafodaeth ystyrlon ynglŷn â'ch lle chi o fewn y busnes.
- A ddylech chi fynd i weithio i rywun arall ar ôl cwblhau eich addysg? Mae hyn yn dangos i'ch teulu ac yn bwysicaf oll, i chi, bod gennych chi'r sgiliau a'r profiad i'w cynnig i'w busnes. Gallai hefyd eich galluogi i gasglu cyfalaf i dyfu'r busnes i wneud lle i chi.
- Yn aml, nid yw pobl ifanc eisiau edrych yn anniolchgar drwy ofyn cwestiynau am eu rôl neu eu disgwyliadau am y dyfodol. Fodd bynnag, os ydych chi'n ei chael hi'n anodd trafod y materion hyn, a fydddech chi'n ei chael hi'n anodd gweithio gyda'ch gilydd? Mae'r rhain yn gwestiynau sylfaenol ac os nad oes modd i chi eu trafod fel teulu, mae'n rhaid i chi ofyn i chi'ch hun a oes gennych chi'r gallu i drafod materion olyniaeth yn y dyfodol a rhedeg busnes llwyddiannus gyda'ch gilydd mewn cyfnodau heriol.
- Ydych chi'n cyd-dynnu'n dda gyda'r aelodau o'r teulu sy'n rhan o'r busnes ar hyn o bryd? Os nad ydych chi, nid fydd ymuno gyda'ch gilydd mewn busnes yn llwyddiannus a bydd eich perthynas yn dirywio ymhellach.
- Beth os nad yw pethau'n llwyddo fel y bwriadwyd? Sut fyddwch chi'n gwybod? Beth fyddwch chi'n ei wneud? Cynlluniwch ar gyfer hyn er mwyn rhoi opsiynau i chi'ch hun.
- A ydych wedi cynllunio llwybr gyda dyddiadau pryd y byddwch yn cymryd cyfrifoldebau amrywiol o fewn y busnes?

Mae cyfathrebu'n allweddol

Mae cyfathrebu da a chlir yn allweddol er mwyn cydweithio'n llwyddiannus.

Dyma ambell i awgrym defnyddiol.

- Cynhaliwch nifer o gyfarfodydd fel teulu i gadarnhau eich rôl cyn ymrwymo i'r busnes. Gwnewch drefniadau o ran cyflog, trefniadau byw (peidiwch â byw o fewn tafliad carreg i'r genhedlaeth flaenorol!), cyfrifoldebau ac amserlen i gwblhau'r broses olyniaeth. Os ydych chi'n cael trafferth gwneud hyn, defnyddiwch hwylusydd cymwys.
- Cynhaliwch gyfarfodydd sefydliadol bob wythnos neu bob pythefnos fel eich bod yn cael eich cynnwys yn y ffordd mae'r busnes yn cael ei redeg ac o ran y broses o wneud penderfyniadau.



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

- Cynhaliwch gyfarfod strategol blynyddol er mwyn asesu perfformiad y flwyddyn flaenorol a gosodwch dargedau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gall hyn gynnwys eich ymgynghorydd, cyfrifydd neu reolwr banc. Dyma hefyd yw'r amser i chi edrych sut mae eich cynllun olyniaeth yn gweithio a chyflwyno newidiadau os oes angen. Mae cynlluniau olyniaeth yn ddogfennau byw ac maent yn gallu newid gydag amgylchiadau, felly mae'n bwysig ail-edrych arnynt a'u hadolygu os oes angen.
- Os oes angen cyngor proffesiynol arnoch ynglŷn â goblygiadau cyfreithiol neu dreth yn ymwneud ag olyniaeth, sicrhewch eich bod wedi cynnal cyfarfod teuluol i gadarnhau'r hyn yr ydych chi eisiau i ddigwydd. Yna, gallwch fynd at y gweithwyr proffesiynol gyda'ch cynllun a gallant roi cyngor i chi ynglŷn â sut i roi eich cynllun ar waith. Mae mynd at bobl broffesiynol yn y lle cyntaf a cheisio gwneud i'ch cynllun ddilyn eu cyngor yn ffordd anghywir o fynd o'i chwmpas!
- Wrth drafod olyniaeth, ceisiwch wahanu perchnogaeth ar yr asedau oddi wrth gyfrifoldebau rhedeg y busnes, gan nad oes rhaid i'r rhain ddigwydd ar yr un pryd.
- Ceisiwch gyngor da yn ymwneud â strwythurau busnes gan gynghorwyr arbenigol.
- Rhowch ddyddiad ar gyfer pryd yr ydych yn bwriadu ymddeol. Mae hyn yn creu trywydd llyfn ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae hefyd yn golygu eich bod yn dueddol o wneud y gorau o'ch amser. Peidiwch â rhoi'r gorau i'ch diddordebau. Bydd angen rhywbeth arnoch i'w wneud ar ôl ymddeol! Cyfrifoldeb eich cenhedlaeth chi yw sicrhau bod olyniaeth ar gyfer y dyfodol yn broses effeithiol a llyfn ac nid yn bwnc nad oes neb yn ei drafod heddiw.



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813